

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig: cyflawni prosiect - Rhesymeg dros gynnwys elfennau ynni adnewyddadwy mewn prosiectau INRS

Cyflwyniad

Mae'r cyllid a roddir i'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS) yn cefnogi amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, sy'n cynnwys:

- Cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy
- Arafu'r newid yn yr hinsawdd, ac addasu iddo
- Cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau
- Gwarchod adnoddau diwylliannol a naturiol

Rhesymeg dros gynnwys elfennau ynni adnewyddadwy

Mae canllawiau'r INRS yn annog busnesau amaethyddol i reoli ynni yn effeithiol trwy ddefnyddio ynni'n effeithlon, arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar eu tir. Bydd prosiect yn cael sgôr uchel os yw'n dangos tystiolaeth y caiff effaith gadarnhaol barhaol ar les amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Gall prosiect ganolbwyntio ar flaenoriaethau fel atebion sy'n seiliedig ar natur, cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy neu ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Esbonnir hyn yn glir yn y canllawiau ac ni fyddai'n golygu gwrthod unrhyw gynnig i wella effeithlonrwydd ynni.

Pan gafodd y cynllun ei lunio'n wreiddiol fel cynllun integredig i wireddu blaenoriaethau'r NRP, roedd yn rhaid wrth elfen oedd yn ymdrin â defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Efallai y bydd angen adolygu hyn ar gyfer ffenestri ymgeisio yn y dyfodol ond am y tro, rhaid ei ystyried gan ei fod wedi'i gynnwys yn y canllawiau cyfredol a'r Cynllun Cymhorthdal.

Amodau ar gyfer Cyllido Ynni Adnewyddadwy neu Effeithlonrwydd Ynni o dan INRS

Mae'r amodau canlynol yn cael eu nodi yn y canllawiau:

- Nad yw'n brosiect ar ei ben ei hun: Rhaid i osodiadau ynni adnewyddadwy (e.e. PV solar, gwynt, pypiau gwres) neu fesurau ynni effeithlon fod yn rhan o brosiect cydweithredol sy'n darparu manteision amgylcheddol ar raddfa tirwedd neu ddalgylch.
- Cydweithio: Rhaid i brosiectau gynnwys nifer o randdeiliaid (ffermwyr, coedwigwyr, rheolwyr tir, cyrff anllywodraethol, ac ati).
- Ffit strategol: Dylai'r elfen ynni adnewyddadwy gyfrannu at arafu'r newid yn yr hinsawdd neu addasu iddo a gwneud ecosystemau yn fwy cydnerth, nid **dim ond** lleihau costau daliadau unigol.
- Maint ac effaith: Dylai'r cyllid gefnogi prosiectau sy'n ategu atebion sy'n seiliedig ar natur (e.e., pwerau systemau rheoli dŵr, helpu i adfer cynefinoedd, ac yn enwedig defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon) ac nid cynhyrchu ynni masnachol yn unig.

Mae'r tabl isod yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi darparu 100% o'r cyllid yn y gorffennol; Ond nid oes cynlluniau penodol ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y sector amaethyddol.

Cynlluniau yng Nghymru sy'n cefnogi Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

Enw'r Cynllun	Math	Cymhwysedd	Swm y Cyllid	Dolen i'r Cais	Statws/Nodiadau
Y Gronfa Paratoi at y Dyfodol	Grantiau busnes	BBaChau yng Nghymru (1–249 o weithwyr, yn masnachu ers Ebrill 2023)	£5,000–£10,000	Cronfa paratoi at y dyfodol Busnes Cymru	Bellach ar gau, dim ond ar gyfer sectorau manwerthu, lletygarwch neu hamdden (75% o'r costau)
Grant Cyfalaf Ynni Cymru	Busnes/Cymuned	Prosiectau ynni lleol, Systemau Ynni Lleol Clyfar	Hyd at £10 miliwn	Ynni Cymru rhaglen cyllid grant cyfalaf 2025 i 2026: canllawiau [HTML] LLYW.CYMRU	Ar gyfer systemau ynni lleol clyfar cysylltiedig. 100% o Gymorth ar gyfer CiCs Cymunedau ac ati.
Grantiau Awdurdodau Lleol	Busnes	Yn amrywio yn ôl y cyngor; Gwrio cynlluniau datgarboneiddio lleol	Fel arfer £1,000–£10,000	Gwefannau awdurdodau lleol	
Gwarant Allforio Clyfar (SEG)	Cymhelliant	Busnesau ac aelwydydd â phaneli solar wedi'u gosod	Newidiol (taliad am ynni sy'n cael ei allforio)	https://www.ofgem.gov.uk/environmental-and-social-schemes/smart-export-guarantee-seg/smart-export-guarantee-seg-generators	Mae'r Gwarant Allforio Clyfar (SEG) yn galluogi cynhyrchwyr bach i gael eu talu gan gyflenwyr trydan am drydan y maen nhw'n ei allforio yn ôl i'r Grid Cenedlaethol, ar yr amod eu bod yn bodloni amodau penodol. (mantais i fusnes ar ôl gosod).
Cynllun ECO4	Preswyl	100% o'r cyllid ar gael i aelwydydd incwm isel neu sydd ar fudd-daliadau	Hyd at 100% o'r Cyllid	https://ecoschemewales.com	Cymorth gwerth 100% ond i fod yn gymwys, rhaid i chi fod yn berchen ar eich cartref neu'n rhentu'n breifat yng Nghymru a naill ai'n derbyn budd-daliadau penodol fel

					Credyd Cynhwysol, Credydau Treth, Credyd Pensiwn, neu lai na £31,000 o incwm. Bydd gan eich cartref hefyd sgôr effeithlonrwydd ynni isel o D, E, F neu G.
Cynllun Nyth	Preswyl	Aelwydydd sy'n dioddef o dlodi tanwydd yng Nghymru	Gwella'r defnydd effeithlon o ynni, am ddim	Cael cymorth gydag effeithlonrwydd ynni yn eich cartref gan Nyth LLYW.CYMRU	Cynllun cyngori i helpu perchnogion tai cymwys (gweler uchod)
Cartrefi Gwyrdd Cymru	Preswyl	Perchnogion tai yng Nghymru	Benthyciadau di-log (£1k–£25k) + grantiau	https://energysavinggrants.org/your-guide-to-the-green-homes-wales-grant-who-qualifies-and-how-to-apply/	Benthyciadau di-log (i'w hadalu dros 10 mlynedd) i berchnogion tai
Cymorth TAW	Preswyl	Pob panel solar domestig a osodir	Dim TAW tan fis Mawrth 2027	https://www.gov.uk/guidance/vat-on-energy-saving-materials-and-heating-equipment	

Argymhellion ar gyfer Cyllido Ynni Adnewyddadwy neu fesurau Defnyddio Ynni'n Effeithlon o dan INRS

Mae'r argymhellion hyn yn berthnasol i Ffenestr 1 yr INRS yn unig. Gall ffenestri ymgeisio yn y dyfodol beidio â chynnwys yr elfen hon yn y cynllun integredig neu ganolbwyntio ar flaenoriaeth benodol.

Argymhellir bod y gyfradd gyllido 100% yn cael ei chynnig ar gyfer bob gweithred sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy o fewn prosiectau o fodloni'r amodau isod a chael cymeradwyaeth y panel buddsoddi.

Er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amcanion INRS a bod y cynllunio'n gadarn, dylid paratoi dogfennau ac ymrwymadau cynhwysfawr i gyd-fynd ag unrhyw gynnis sy'n cynnwys mesurau arbed ynni neu ynni adnewyddadwy, fel yr amlinellir isod:

1. Adroddiad Ategol

Rhaid cyflwyno adroddiad manwl, sy'n esbonio'r:

- **Metrigau Sylfaen:** Defnydd ynni cyfredol, allyriadau carbon, a defnydd adnoddau.
- **Proffil Ynni Cyfredol:** Gan gynnwys cludiant hydrocarbonau ac ystyriaethau perthnasol eraill.
- **Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Mwy o Ynni:** Lle bo'n berthnasol, esboniwch y gofynion ychwanegol sy'n deillio o welliannau arloesol neu amgylcheddol (e.e., costau ynni gaeafu at ddiben dadstocio, pypiau haul).

2. Rhesymeg y Prosiect

Tystiolaeth glir bod integreiddio ynni adnewyddadwy yn cyfrannu at:

- Liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.
- Manteision amgylcheddol a chymdeithasol yn cyd-fynd ag amcanion INRS.
- Cynaliadwyedd a chydnerthedd hirdymor.

3. Integreiddio Ynni Cymunedol

Lle bo'n berthnasol, rhowch fanylion:

- Systemau ynni cymunedol (e.e., ynni dŵr, tyrbinau gwynt).
 - Cydlynu rhwydweithiau ynni trydan clyfar.
 - Trefniadau llywodraethu cydweithredol a rhannu buddiannau.
-

4. Cynllun Monitro a Gwerthuso

Rhaid i gynllun cadarn gynnwys:

- **Monitro Perfformiad** Tracio newidiadau o ran defnyddio ynni, lleihau carbon, ac enillion trwy ddefnydd effeithlon.
 - **Asesu Effeithiau Amgylcheddol:** Cofnodi gwelliannau fel ansawdd aer, llai o erydiad gan draffig, gwell inswleiddio, a llai o ddefnydd.
 - **Alinio â Sero Net:** Dangos cyfraniad tuag at dargedau niwtraleiddio carbon.
-

5. Ymrwymadau Cynnal a Chadw ac Adrodd

- **Cynnal a chadw systemau TG** Cynnal systemau wedi'u gosod am gyfnod y prosiect ac am o leiaf bum mlynedd ar ôl ei gwblhau.
- **Adroddiadau am Effaith** Adrodd yn rheolaidd yn erbyn metrigau y cytunwyd arnynt, sy'n dystiolaeth o ganlyniadau